# GWYBODAETH I YMGEISWYR: GORUCHWYLWR BAR A CHEGIN

Awst 2025

Annwyl Ymgeisydd,

Atodir pecyn gwybodaeth am swydd Goruchwylwr Bar a Chegin. Diolch am eich diddordeb yn y swydd hon.

Mae hon yn rôl gyffrous a heriol o fewn y sefydliad ac yn ganolog i'n helpu i gyflawni ein huchelgais i greu theatr wych a darparu profiad cyfannol i ymwelwyr fydd yn cyffroi cynulleidfaoedd yng Nghaerdydd a thu hwnt.

Bydd disgwyl i chi sicrhau bod gwasanaethau'r bar a'r gegin yn gweithredu'n effeithiol a phroffidiol ac yn cefnogi ac yn arddel amcanion Theatr y Sherman yn ystod perfformiadau a'r tu allan i'r amseroedd hynny. Bydd disgwyl i chi hefyd gynorthwyo Rheolwr y Bar a'r Gegin i ddarparu gwasanaethau bar a chegin o ddydd i ddydd, gan gynnwys gweithgareddau a digwyddiadau.

Theatr y Sherman yw un o brif theatrau cynhyrchu gwledydd Prydain, ac mae'n un o sefydliadau diwylliannol pwysicaf Cymru.

Yn Theatr y Sherman, fe rydym ni yn dychmygu byd lle gall pŵer y theatr greu byd tecach, mwy tosturiol ac unedig. Cawn ein hysgogi i gyflawni'r weledigaeth yma yn ddyddiol. Rydyn ni'n gwneud hyn drwy greu a churadu profiadau theatr byw i'w rhannu ac i ysbrydoli pobl o bob cefndir ar draws De Cymru i fedru gwneud byd gwell, yn eu ffordd eu hunain. Credwn fod pawb â'r hawl i gael mynediad at greadigrwydd a hunanfynegiant, ac ymdrechwn yn gyson i sicrhau bod pawb yn cael y cyfle i gael eu cyfoethogi gan y theatr.

Mae ein ffocws ar ddatblygu a chynhyrchu gwaith newydd ac ar feithrin artistiaid Cymraeg ac o Gymru yn ein gwneud ni'n injan i fyd y theatr yng Nghymru. Trwy ein cynyrchiadau Crëwyd yn y Sherman, rydym yn adrodd straeon Cymraeg sy'n cyseinio negeseuon o bwys yn fyd-eang, a chaiff pob un eu creu o dan ein to yng nghalon Caerdydd. Rydym yn le i bawb, gan greu cyfleoedd i bobl De Cymru gysylltu â'r theatr drwy ymrwymiad ysbrydoledig a gweledigaethol.

Yn ystod blynyddoedd diwethaf rydym ni wedi mynd o gryfder i gryfder gan ennill sawl gwobr genedlaethol adnabyddus am ein gwaith newidiol. Rydym wedi defnyddio'r amser a gafwyd iddynt gan y pan demig ar gyfer gwella ein hadeilad, ein systemau, ag ein seilwaith, ag nawr rydym yn edrych am fwy o aelodau i ymuno a'n tîm ar draws nifer o swyddi.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae ein cynyrchiadau wedi bod yn boblogaidd gyda chynulleidfaoedd a'r beirniaid fel ei gilydd ac rydyn ni wedi gweld niferoedd ein cynulleidfaoedd yn Theatr y Sherman yn rhagori ar y lefelau cyn y pandemig. Mae ailymgysylltu â'n cynulleidfaoedd a'n cymunedau yn parhau wrth wraidd popeth rydyn ni'n ei wneud, ac mae'r swydd hon yn chwarae rhan hanfodol wrth sicrhau bod y sefydliad yn rhedeg mor esmwyth â phosib i alluogi hynny.

Rydyn ni eisiau i Theatr y Sherman fod yn hygyrch i bawb ac felly mae'n hynod bwysig i ni fod ein tîm yn y theatr yn adlewyrchu'r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu ar draws y

ddinas a thu hwnt. Rydym felly'n croesawu'n arbennig ymgeiswyr o gymunedau ethnig amrywiol a chymunedau B/byddar ac anabl sy'n cael eu tangynrychioli o fewn ein tîm ar hyn o bryd.

I wneud cais am y swydd, lawrlwythwch y ffurflen gais, y daflen flaen a'r ffurflen monitro cyfle cyfartal o'n gwefan: www.shermantheatre.co.uk a'u hanfon atom dros yr e-bost i: recruitment@shermantheatre.co.uk. Yn unol â'n polisi amgylcheddol, sylwer mai dim ond yn electronig y byddwn yn ymdrin â cheisiadau. Y dyddiad cau yw **dydd Llun 29 Medi 2025 am hanner dydd**. Byddwn yn anfon cadarnhad ein bod wedi derbyn eich cais drwy e-bost.

Rydym yn gobeithio cynnal y cyfweliadau **ddydd Gwener 10 Hydref**. Gofynnwn i chi nodi ar ddalen flaen y ffurflen gais a ydych ar gael i ddod i'r cyfweliad ar y dyddiad hwn er mwyn inni wybod, mewn da bryd, os oes angen gwneud trefniadau eraill ar gyfer unrhyw ymgeisydd ar y rhestr fer.

Os hoffech ragor o wybodaeth cyn gwneud cais, cysylltwch â ni drwy e-bostio recruitment@shermantheatre.co.uk

Diolch i chi am eich amser mewn perthynas â'r cais hwn – rydym yn edrych ymlaen yn fawr at glywed oddi wrthych, a thrafod sut y bydd eich sgiliau, eich profiadau a'ch angerdd yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'n gwaith.

Pob hwyl gyda'r cais.

Yn gywir

**Julia Barry**
Prif Weithredwr
Theatr y Sherman

## GORUCHWYLWR BAR A CHEGIN: TROSOLWG O'R ROL

Mae Theatr y Sherman yn dymuno penodi Goruchwyliwr ar gyfer y Bar a'r Gegin i helpu i gefnogi gweithrediadau Blaen y Tŷ yn y theatr. Er mwyn cyfrannu at effeithlonrwydd gweithredol yr adran a darparu'r lefelau uchaf o wasanaeth cwsmeriaid, bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus dystiolaeth o'u gallu i oruchwylio gweithrediadau bob dydd tîm y Caffi Bar yn y Sherman ac i gynorthwyo Rheolwr y Bar a'r Gegin i ddarparu gwasanaeth effeithlon, diogel, effeithiol a phroffidiol yn y bar a'r gegin gan gynnwys mewn achlysuron a digwyddiadau. Bydd yr unigolyn hefyd yn ymgymryd â shifftiau Rheolwr ar Ddyletswydd gan sicrhau bod ein cynulleidfaoedd yn cael profiad ymwelwyr gwych. Mae hon yn swydd gyffrous a heriol yn y sefydliad, sy'n ganolog o ran ein cefnogi i gyflawni ein huchelgais o greu theatr ragorol a darparu profiad gwych i ymwelwyr fydd yn cyffroi cynulleidfaoedd yng Nghaerdydd a'r tu hwnt.

## GORUCHWYLWR BAR A CHEGIN: MANYLION CYTUNDEBOL

| | |
|---|---|
| **Cyflog:** | £25,193 y flwyddyn |
| **Tymor:** | Cynigir y swydd fel swydd barhaol, yn amodol ar gwblhau cyfnod prawf llwydiannus o 6 mis |
| **Oriau:** | 39 awr yr wythnos gan gynnwys gyda'r nos a phenwythnosau. |
| **Gwyliau:** | 22 diwrnod y flwyddyn, ynghyd â'r 8 gŵyl banc/gwyliau cyhoeddus cydnabyddedig, gyda nifer y dyddiau'n cynyddu gyda hyd y gwasanaeth hyd at uchafswm o 27 diwrnod ynghyd â gwyliau banc/cyhoeddus |
| **Cyfnod Rhybudd:** | 1 mis gydag wythnosau ychwanegol wrth i hyd y gwasanaeth gynyddu (Y cyfnod rhybudd yn ystod y cyfnod prawf yw 1 wythnos) |
| **Pensiwn:** | Mae Theatr y Sherman yn gweithredu cynllun pensiwn y gweithle cymwys |
| **Yr hawl i weithio:** | Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus ddarparu dogfennau o dan Ddeddf Mewnfudo, Lloches a Chenedligrwydd 2006 |
| **Geirdaon:** | Mae cynigion swydd yn amodol ar dderbyn geirdaon sy'n foddhaol i Theatr y Sherman |
| **Dyddiad dechrau:** | Mae'r swydd ar gael ar unwaith |

**Buddion Anghytundebol**
Rydym yn annog yr holl staff i weld cymaint o sioeau â phosibl ac i fod yn rhan o bob cam o'r broses gynhyrchu ar gyfer cynyrchiadau Theatr y Sherman. Gwahoddir pob aelod o staff i fynychu Noson y Wasg ar gyfer cynyrchiadau Theatr y Sherman, ynghyd â thocynnau am ddim i'r rhan fwyaf o sioeau. Rydym hefyd yn cynnig gostyngiad staff yn y Caffi Bar i bob aelod o staff.

# SWYDD DDISGRIFIAD : GORUCHWYLWR BAR A CHEGIN

| | |
|---|---|
| **TEITL Y SWYDD:** | Goruchwylwr Bar a Chegin |
| **YN ATEBOL I:** | Rheolwr Bar a Chegin |
| **PERTHNASOEDD GWAITH ALLWEDDOL:** | Prif Weithredwr, Pennaeth Gweithrediadau, Rheolwr Profiad Ymwelwyr, Rheolwr y Swyddfa Docynnau a Mewnwelediadau Cynulleidfaoedd a Mewnwelediadau Cynulleidfaoedd, Pennaeth Marchnata a Chyfathrebu, Pennaeth Cyllid a Gweinyddiaeth, |
| **YN GYFRIFOL AM:** | Cynorthwywyr y Bar a'r Gegin, Gwirfoddolwyr (wrth weithio fel Rheolwr ar Ddyletswydd) |

## PWRPAS Y SWYDD:

Sicrhau bod gwasanaethau'r bar a'r gegin yn gweithredu'n effeithiol a phroffidiol, a chefnogi ac arddel amcanion Theatr y Sherman yn ystod perfformiadau a thu hwnt i"r amseroedd hynny ac yn unol â'n hamcanion i ddatblygu cynulleidfaoedd. Cynorthwyo Rheolwr y Bar a'r Gegin i ddarparu gwasanaethau bar a chegin o ddydd i ddydd, gan gynnwys gweithgareddau a digwyddiadau, ac ymgymryd â dyletswyddau'r Rheolwr ar Ddyletswydd yn ôl y galw.

## PRIF GYFRIFOLDEBAU:

- Sicrhau bod y lefelau uchaf o wasanaeth i gwsmeriaid, cleientiaid, cwmnïau sy'n ymweld a staff yn cael eu darparu bob amser ar draws y Caffi Bar a bod graen rhagorol ar ardaloedd cyhoeddus Blaen y Tŷ.
- Cynorthwyo gyda hyfforddi a goruchwylio Cynorthwywyr y Bar a'r Gegin a chefnogi Rheolwr y Bar a'r Gegin gyda gweithrediadau bob dydd y Caffi Bar.
- Gweithredu fel Rheolwr ar Ddyletswydd a goruchwylio'r Caffi Bar yn absenoldeb Rheolwr y Bar a'r Gegin.
- Gweithio gyda Rheolwr y Bar a'r Gegin a'r Pennaeth Gweithrediadau ar yr holl weithdrefnau o ran trwyddedau, Iechyd a Diogelwch a gwacáu yn ystod tân.

## Gwasanaeth Cwsmeriaid

*Sicrhau bod y lefelau uchaf o wasanaeth i gwsmeriaid, cleientiaid, cwmnïau sy'n ymweld a staff yn cael eu darparu bob amser ar draws y Caffi Bar a bod graen rhagorol ar ardaloedd cyhoeddus Blaen y Tŷ.*

**1.** Hyrwyddo lefelau eithriadol o wasanaeth cwsmeriaid, gan weithio gyda Rheolwr y Bar a'r Gegin i ddarparu Safonau Gwasanaeth Cwsmeriaid ar draws pob agwedd ar ymwneud y cwmni â'r cyhoedd.

**2.** Datblygu a chynnal arddull a lefel o wasanaeth i'r Bar a'r Gegin fydd yn cefnogi ac yn ganolog i weithrediadau craidd, gwerthoedd, rhaglen a gwasanaethau Theatr y Sherman. Sicrhau bod y gwasanaeth yn bodloni gofynion pob un o'r gwahanol fathau o weithgarwch yn Theatr y Sherman.

**3.** Gyda Rheolwr y Bar a'r Gegin (ac yn eu habsenoldeb), sicrhau bod graen rhagorol ar y Bar a'r Gegin ac ardaloedd cyhoeddus Blaen y Tŷ.

**4.** Bod yn wybodus am yr holl eitemau sydd ar y fwydlen/y rhestr ddiodydd a sut i'w gweini. Bydd hyn yn cynnwys gwasanaethau barista rhagorol.

**5.** Cyfrannu at hyfforddiant a datblygiad holl staff y Bar a'r Gegin gan sicrhau eu bod yn gallu cyflawni eu cyfrifoldebau mewn ffordd sy'n amlygu gwerthoedd y cwmni ac yn sicrhau cysondeb yn y safonau gwasanaeth.

**6.** Sicrhau bod iechyd a diogelwch yn cael ei gynnal. Cynnal y safonau uchaf o ofal cwsmer, ac ymddangosiad ac arferion gweithio staff a gwirfoddolwyr y Bar a'r Gegin.

## Gweithrediadau a Goruchwylio'r Caffi Bar

*Cynorthwyo gyda hyfforddi a goruchwylio Cynorthwywyr y Bar a'r Gegin a chefnogi Rheolwr y Bar a'r Gegin gyda gweithrediadau bob dydd y Caffi Bar*

**1.** Gyda Rheolwr y Bar a'r Gegin, cefnogi'r gwaith o ddatblygu a gweithredu bar a chaffi Theatr y Sherman yn effeithiol, gan sicrhau bod lefel uchel o wasanaeth cwsmeriaid a bod y cyfleusterau'n cael eu gweithredu mewn modd effeithlon a phroffidiol.

**2.** Goruchwylio gwaith Cynorthwywyr y Bar a'r Gegin, gan sicrhau bod lefel uchel o wasanaeth cwsmeriaid yn cael ei gyrraedd ar gyfer yr holl ddigwyddiadau sy'n cael eu hyrwyddo gan Theatr y Sherman.

**3.** Cynorthwyo gyda'r gwaith o hyfforddi a goruchwylio staff y Bar a'r Gegin mewn meysydd priodol. Sicrhau bod yr holl staff yn gweithio o fewn gweithdrefnau y cytunwyd arnynt ac i safonau priodol; gan gynnwys monitro perfformiad gwaith, cadw amser ac arferion da a gwasanaeth cwsmeriaid cyffredinol.

**4.** Sicrhau bod yr holl staff yn cael eu briffio'n llawn gan gynnwys ynghylch newidiadau a diweddariadau i'r arlwy neu'r gwasanaeth ac er mwyn rhannu gwybodaeth.

**5.** Yn absenoldeb Rheolwr y Bar a'r Gegin, goruchwylio elfennau ariannol bob dydd y Bar a'r Gegin, gan gynnwys cadw fflotiau arian parod, a darparu gwybodaeth a gwiriadau ar gais y Pennaeth Gweithrediadau a'r Pennaeth Cyllid a Gweinyddu.

**6.** Sicrhau bod stoc digonol o ddeunyddiau, cyflenwadau ac offer yn y Bar a'r Gegin. Pan fydd angen, cynorthwyo gyda'r drefn gywir ac arferol o gymryd stoc ym mhob ardal ac adrodd yn rheolaidd i'r Pennaeth Gweithrediadau.

**7.** Rheoli, derbyn a chofnodi nwyddau traul sy'n dod i mewn i storfeydd y Bar a'r Gegin gan sicrhau eu bod yn cael eu trin a'u storio'n ddiogel, ac ymdrin ag unrhyw amrywiadau yn ôl yr angen.

**8.** Cynorthwyo Rheolwr y Bar a Chegin i baratoi a chofnodi adroddiadau misol ac wythnosol.

## Rheolwr ar Ddyletswydd

*Gweithredu fel Rheolwr ar Ddyletswydd a goruchwylio'r Caffi Bar yn absenoldeb Rheolwr y Bar a'r Gegin.*

**1.** Gweithredu fel Rheolwr ar Ddyletswydd gyda'r nos yn ôl yr angen, ochr yn ochr â dyletswyddau yn ystod y dydd. Sicrhau diogelwch yr adeilad a gweithredu fel daliwr allweddi pan fydd angen.

**2.** Sicrhau agwedd groesawgar at gwsmeriaid, ymwelwyr a defnyddwyr o amrywiaeth o gefndiroedd drwy hyrwyddo amrywiaeth ac ysbryd o gytgord. Bod yn gwbl ymwybodol o faterion a gweithdrefnau sy'n ymwneud â pherfformiadau hygyrch a sicrhau bod yr holl staff yr un mor ymwybodol fel bod anghenion cwsmeriaid sydd â gofynion arbennig yn cael eu diwallu.

**3.** Yn absenoldeb y Pennaeth Gweithrediadau, Rheolwr y Bar a'r Gegin a'r Rheolwr Profiad Ymwelwyr, gweithredu fel y Person Cyfrifol ar ddyletswydd ar ran y cwmni i dderbyn ac ymdrin ag unrhyw gwynion gan gwsmeriaid neu gwynion eraill a rheoli disgwyliadau cwsmeriaid.

**4.** Ymgymryd â dyletswyddau Swyddog Tân yn ôl yr angen, fydd yn cynnwys gwirio holl ardaloedd cyhoeddus a chefn llwyfan yr adeilad am beryglon a risgiau tân cyn pob perfformiad cyhoeddus.

**5.** Gwirio a sicrhau bod y system larwm tân yn gweithio'n iawn cyn dechrau shifft Rheolwr ar Ddyletswydd.

## Rheoli'r Cyfleusterau a Iechyd a Diogelwch

*Gweithio gyda Rheolwr y Bar a'r Gegin a'r Pennaeth Gweithrediadau ar yr holl weithdrefnau o ran trwyddedau, Iechyd a Diogelwch a gwacáu yn ystod tân.*

1. Cefnogi Rheolwr y Bar a'r Gegin o ran sicrhau bod holl staff a gwirfoddolwyr y Bar a'r Gegin yn cydymffurfio â rheoliadau trwyddedu, Iechyd yr Amgylchedd a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, a pholisïau iechyd a diogelwch Theatr y Sherman.

2. Sicrhau bod adroddiadau damweiniau'n cael eu gweithredu'n gywir. Bod yn rhan o hyfforddiant a driliau diogelwch tân rheolaidd gyda staff y Bar a'r Gegin a gwirfoddolwyr ar gyfer driliau a gwacáu'r adeilad cyfan, a bod yn gyfrifol am wacáu ardaloedd blaen y tŷ yn ddiogel os bydd argyfwng.

3. Yn absenoldeb y Pennaeth Gweithrediadau, Rheolwr y Bar a'r Gegin a'r Rheolwr Profiad Ymwelwyr ac wrth weithredu fel y Rheolwr ar Ddyletswydd, gweithredu fel y Person Cyfrifol ac ymateb i unrhyw larymau sy'n canu ac arwain ar unrhyw brosesau tân, gwacáu neu debyg. Sicrhau bod Allanfeydd Tân yn glir a rhoi gwybod i'r tîm perthnasol neu'r person sy'n gyfrifol am yr ardal os oes angen symud eitemau.

4. Gweithredu fel Daliwr Allweddi ar gyfer cloi'r adeilad ar amseroedd y cytunir arnynt, yn ôl y gofyn.

5. Gweithredu fel swyddog Cymorth Cyntaf dynodedig.

**Mae'n ddyletswydd cadw at y Datganiad Cyfle Cyfartal presennol a datganiadau polisi eraill fel y'u nodir yn y Llawlyfr i Staff.**

*Cofiwch: Byddwch wedi'ch cyflogi fel Goruchwylwr Bar a Chegin. Fodd bynnag, mae'n bosib y bydd gofyn i chi gyflawni dyletswyddau eraill ar yr un raddfa a phecyn tâl, a'r un cyfanswm o oriau gwaith. Byddwch yn cael rhybudd bedair wythnos ymlaen llaw am unrhyw newidiadau mewn dyletswyddau.*

*Swydd newydd gyda disgrifiad swydd newydd yw hon, ac felly mae'n bosib y bydd yn destun newidiadau gan eich rheolwr llinell, neu gallai fod yn rhan o drafodaethau un ai yn eich Arfarniad blynyddol neu gyfarfod priodol arall, yn ddibynnol ar frys y drafodaeth dan sylw.*

# GORUCHWYLWR BAR A CHEGIN: MANYLEB PERSON

## HANFODOL

### Profiad

- Profiad o rôl arolygol, neu swydd debyg sy'n gysylltiedig â gwasanaethau neu fasnachu, a hynny yn ddelfrydol mewn canolfan gelfyddydau neu atyniad i ymwelwyr
- Profiad o ddelio gydag arian, rheoli stoc a systemau EPoS/ cysoni
- Tystiolaeth o oruchwylio ac ysgogi timau
- Profiad o roi gweithdrefnau diogelwch effeithiol ar waith

### Gwybodaeth a Sgiliau

- Gwybodaeth a dealltwriaeth o anghenion a disgwyliadau cynulleidfaoedd/ymwelwyr
- Dealltwriaeth eithriadol o ddiodydd a gweini alcohol
- Sgiliau gwrando, dylanwadu a chyfathrebu llafar ardderchog
- Sgiliau pobl cryf: y gallu i arwain ac ysgogi, i ysgwyddo cyfrifoldeb, i ddirprwyo'n briodol ac i oruchwylio'n effeithiol
- Sgiliau rheolaeth bersonol / goruchwylio cryf: y gallu i gynllunio a blaenoriaethu tasgau, i ymdopi'n effeithiol dan bwysau, i reoli galwadau sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd a chadw agwedd gadarnhaol ac optimistaidd
- Set gadarn o sgiliau technoleg gwybodaeth, gyda dealltwriaeth ymarferol o systemau Microsoft Office

### Nodweddion Personol

- Gweithiwr caled, llawn cymhelliant sy'n ymroddedig i arfer gorau
- Un sy'n "cwblhau" tasgau, sy'n ymfalchïo mewn gwneud gwaith da ac mewn cael y gorau allan o'r bobl y mae'n gyfrifol amdanyn nhw
- Dawn i ddelio â'r cyhoedd a sgiliau gofal cwsmer ardderchog; cael mwynhad mawr o weithio gyda phobl
- Dealltwriaeth ac ymrwymiad i amrywiaeth a chynhwysiant, ynghyd â'r dychymyg a'r gallu i adnabod anghenion penodol a hoffterau ymwelwyr presennol a darpar ymwelwyr
- Meddwl yn ddadansoddol gydag dull rhesymegol o ddatrys problemau, a'r gallu i ragweld goblygiadau a chanlyniadau sefyllfaoedd a chymryd camau priodol
- Rhoi sylw craff i fanylion er mwyn sicrhau safon gyson ar draws y gwasanaeth

## DYMUNOL

- Profiad o reoli digwyddiadau
- Y gallu i siarad Gymraeg
- Brwdfrydedd dros weithgareddau celfyddydol, yn arbennig y theatr
- Deiliad Trwydded Bersonol
- Tystysgrifau Cymorth Cyntaf yn y Gwaith/Swyddog Tân neu gymhwysedd Diogelwch yn y Gweithle
- Tystysgrif Sefydliad Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol (IOSH)
- Trwydded yrru lawn
- Tystysgrif Hylendid Bwyd lefel 2
- Tystysgrif Ymwybyddiaeth o Alergenau